# Mathemateg - Uwchradd

Gall rhieni neu ofalwyr ddefnyddio pecynnau dysgu gartref Stonewall i helpu eu plentyn i ddysgu, neu gall staff addysg eu defnyddio i anfon gwaith adref i'w disgyblion. Mae fersiwn cynradd, uwchradd ac Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd o bob pecyn ar gael, gyda rhestr o weithgareddau awgrymedig a deunyddiau ategol i chi ddewis o'u plith. Mae'r pecyn mathemateg yma'n cynnwys amrywiaeth o daflenni gwaith a chwestiynau i'ch plentyn weithio arnyn nhw.

*Gair am ddiogelwch ar-lein: Gwnewch yn siŵr eich bod yn goruchwylio eich plentyn pan fydd yn defnyddio YouTube neu'n defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer ymchwilio. Siaradwch â nhw ynghylch beth ddylen nhw ei wneud os ydyn nhw'n gweld rhywbeth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus neu eu bod nhw'n meddwl na ddylen nhw fod yn ei weld. Defnyddiwch ein hadnodd Cadw'n Ddiogel Ar-lein neu wefan Childnet i'ch helpu chi.*

## Stonewall

Mae'r adnodd yma wedi ei gynhyrchu gan Stonewall, elusen sydd wedi ei leoli yn y DU ac sy'n sefyll dros rhyddid, ecwiti, a potensial pob person lesbiaidd, hoyw, deurhywiol, traws, cwîar, cwestiynu ac ace (LHDT+).

Yn Stonewall, dychmygwn byd ble all pobl LHDTC+ ym mhobman byw bywydau llawn. Cawsom ein sefydlu yn Llundain yn 1989, ac yn awr rydym yn gweithio ym mhob wlad y DU a rydym wedi sefydlu partneriaethau ar draws y byd. Dros y tair degawd diwethaf, rydym wedi creu newidiadau trawsffurfiedig ym mywydau pobl LHDTC+ yn y DU, gan helpu ennill hawliau hafal o ran priodas, cael plant, ac addysg cynwysiedig.

Mae ein ymgyrchoedd yn creu newidiadau positif i'n cymunedau, ac mae ein rhaglenni newid cynaliadwy a grymusrwydd yn sicrhau bod pobl LHDTC+ yn gallu ffynnu trwy gydol ein bywydau. Rydym ni'n sicrhau bod y byd yn clywed ac yn dysgu o'n cymunedau, ac bod ein gwaith ni wedi ei seilio yn tystiolaeth ac arbenigedd.

**Pecyn Dysgu Gartref: Mathemateg**

Mae Stonewall yn falch i ddarparu wybodaeth, cefnogaeth a cyngor ar cynwysedd LHDTC+; gweithio tuag at byd ble yr ydym i gyd yn rhydd i fyw. Nid yw hyn yn gyfystirio cyngor gyfreithiol, ac nid ydy’n bwriadu cymryd lle cyngor gyfreithiol ar unrhyw pwnc. I ddarganfod mwy amdano ein gwaith ni, ewch i www.stonewallcymru.org.uk.

Wedi mwynhau'r adnodd yma? Ymunwch â ni heddiw! Mae ein tîm arbennig o athrawon a hyfforddwyr wedi cefnogi cannoedd o leoliadau ar eu teithiau cynhwysedd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn rhydd i fod ei hun. Mae gan ein rhaglen aelodaeth i ysgolion a cholegau ac ein rhaglen aelodaeth i wasanaethau plant a phobl ifanc rhywbeth i gynnig i bob lleoliad. Ymunwch heddiw a manteisiwch o:

- Cyrsiau e-ddysgu achrededig
- Mynediad at ein gwobr gwasanaethau plant a phobl ifanc
- Cefnogaeth unigryw oddi wrth ein tîm

Mae’r manteision yma, a mwy, wedi cynnwys yn y pris aelodaeth.

Edrych am hyfforddiant arbennig? Mae ein hyfforddwyr profiadol yn gallu darparu sesiynau ar gyfer darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITT), ysgolion dysgu, rhwydweithiau datblygiad proffesiynol, a nifer fawr o leoliadau eraill, yn Saesneg ac yn Gymraeg. Cysylltwch â ni addysg@stonewall.cymru i darganfod mwy ac i drafod eich anghenion.

**Dewiswch y gweithgaredd cywir ar gyfer eich plentyn:**

fersiwn symlach o'r gweithgaredd

y fersiwn o'r gweithgaredd y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ei ddefnyddio

fersiwn anoddach o'r gweithgaredd

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

Pecyn Dysgu Gartref: Mathemateg

# Gweithgareddau ar gyfer Myfyrwyr Cyfnod Allweddol 3

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y llawr dawnsio

Mae Sam a George yn cynllunio'u priodas. Maen nhw wrth eu bodd yn dawnsio, felly maen nhw am gael llawr dawnsio da.

Maen nhw'n bwriadu llogi llawr dawnsio gydag arwynebedd o $64m^2$. Dydyn nhw methu penderfynu os mai llawr gydag ymylon plaen neu ymylon sy'n goleuo y dylen nhw ei gael.

Mae'n costio £2.32 fesul $1m^2$ o'r llawr. Mae pob teilsen llawr yn mesur 1m wrth 1m. Mae'r ymylon plaen ar gyfer y llawr yn costio 75c y metr.

Mae'r ymylon sy'n goleuo yn costio £1.25 y metr.

1. Beth yw'r perimedr lleiaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
2. Beth yw'r perimedr mwyaf posib ar gyfer y llawr dawnsio?
3. Beth yw'r gost isaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?
4. Beth yw'r gost uchaf bosib ar gyfer y llawr dawnsio?
5. Beth yw'r gwahaniaeth yn y gost rhwng y llawr dawnsio gydag ymylon sy'n goleuo a llawr dawnsio gydag ymylon plaen?

# Y briodas

Mae Sam a George yn priodi ac mae ganddyn nhw gyllideb o £4,500 ar gyfer eu parti priodas. Mae 100 o bobl yn mynd i fod yn y briodas. Helpwch nhw i gynllunio'r parti priodas, gan ddewis o'r gwahanol opsiynau a gwneud yn siŵr na fyddan nhw'n gwario mwy nag sydd ganddyn nhw. Efallai y byddwch am greu taenlen Excel i'ch helpu.

### Lleoliad

Neuadd y pentref - £120 y diwrnod

Pabell fawr - £600 y diwrnod

Adeilad moethus - £65 am bob gwestai (sy'n cynnwys byrddau, cadeiriau a phryd tri chwrs)

Llogi bwrdd - £6.70 fesul bwrdd (lle i 10 eistedd)

Llogi cadair - £2.65 fesul cadair

### Bwydd

Bwffe - £5 y pen

Pryd tri chwrs - £32.50 y pen

Bwrdd caws - £4 y pen

### Cacen

Cacen gartref - £20

Cacen o archfarchnad -

£60 Cacen ffansi - £300

### Adloniant

DJ - £250

Band - £750

Llawr dawnsio syml - £285

Llawr dawnsio gyda

golau - £350 Bwth

lluniau - £280

Gemau aer - £500

### Addurniadau

Goleuadau tylwyth teg -

£35 Balŵns - £10

Blodau - £50 y

trefniant Baneri

bach - £60

Llieiniau bwrdd - £9.30 yr un

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

**Home Learning Pack: Maths**

# Y briodas

Mae Sam a George yn priodi ac mae ganddyn nhw gyllideb o £4,500 ar gyfer eu parti priodas. Mae 100 o bobl yn mynd i fod yn y briodas. Helpwch nhw i gynllunio'r parti priodas, gan ddewis o'r gwahanol opsiynau a gwneud yn siŵr na fyddan nhw'n gwario mwy nag sydd ganddyn nhw. Efallai y byddwch am greu taenlen Excel i'ch helpu.

**Lleoliad**

Neuadd y pentref - £120 y diwrnod

Pabell fawr - £600 y diwrnod

Adeilad moethus - £65 am bob gwestai (sy'n cynnwys byrddau, cadeiriau a phryd tri chwrs)

Llogi bwrdd - £6.70 fesul bwrdd (lle i 10 eistedd)

Llogi cadair - £2.65 fesul cadair

**Bwyd**

Bwffe - £5 y pen

Pryd tri chwrs - £32.50 y pen

Bwrdd caws - £4 y pen

**Cacen**

Cacen gartref - £20

Cacen o archfarchnad - £60

Cacen ffansi - £300

**Adloniant**

DJ - £250

Band - £750

Llawr dawnsio syml - gweler isod

Llawr dawnsio wedi'i oleuo -

gweler isod Bwth lluniau - £280

Gemau aer - £500

**Addurniadau**

Goleuadau tylwyth teg – gweler

isod Balŵns - £10

Blodau - £50 y

trefniant Baneri

bach - £60

Llieiniau bwrdd - £9.30 yr un

## Y llawr dawnsio

Byddai Sam a George yn hoffi llogi llawr dawnsio gydag arwynebedd o $64m^2$. Dydyn nhw methu penderfynu os mai llawr gydag ymylon plaen neu ymylon sy'n goleuo y dylen nhw ei gael.

Mae'n costio £2.32 fesul $1m^2$ o'r llawr. Mae pob teilsen llawr yn mesur 1m wrth 1m. Mae'r ymylon plaen ar gyfer y llawr yn costio 75c y metr.

Mae'r ymylon sy'n goleuo yn costio £1.25 y metr.

Fel rhan o'r cynllun ar gyfer y briodas, bydd angen i chi ddylunio'r llawr dawnsio. Rhowch gynnig ar sawl dyluniad gwahanol. Dylech ystyried pa ddyluniadau sydd fwyaf synhwyrol, ond hefyd ystyried pa ddyluniadau sydd fwyaf cost effeithiol.

## Goleuadau tylwyth teg

Os ydyn nhw'n llogi pabell fawr, bydd angen goleuadau tylwyth teg ar Sam a George. Maen nhw'n gwybod mai arwynebedd y babell fydd $72m^2$, ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth yw perimedr y babell. Mae'r goleuadau tylwyth teg yn costio 99c y metr.

Fel rhan o'r cynllun ar gyfer y briodas, bydd angen i chi ddarganfod beth fydd cost bosib y goleuadau tylwyth teg. Dylech ddarganfod beth fydd y gost isaf ac uchaf ar gyfer y goleuadau.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Ystafell fyw newydd

Mae Jehmail a Benson yn symud i fflat newydd. Mae gan yr ystafell fyw arwynebedd o $28m^2$.

1. Beth yw cynlluniau posib yr ystafell fyw (gan dybio bod y corneli i gyd yn onglau sgwâr)?

2. Cyfrifwch gost y gwahanol fathau o loriau ar gyfer yr ystafell.

**Llawr:**

Laminiad pren - £6 am bob $m^2$

Pren caled - £22 am bob $m^2$

Carped - £15 am bob $m^2$

# Ystafell fyw newydd

Mae Jehmail a Benson yn symud i fflat newydd. Mae gan yr ystafell fyw arwynebedd o $28m^2$.

1. Beth yw cynlluniau posib yr ystafell fyw (gan dybio bod y corneli i gyd yn onglau sgwâr)?
2. Dewiswch eich hoff gynllun ar gyfer yr ystafell. Mae'r nenfwd 2.6m o'r llawr. Cyfrifwch yr holl gostau posib er mwyn addurno'r ystafell (er enghraifft: llawr laminiad pren gyda phaent brand drud, carped, paent brand rhad ac ati).

**Llawr:**

Laminiad pren - £6.50 am bob $m^2$

Pren caled - £21.50 am bob $m^2$

Carped - £15 am bob $m^2$

**Paent:**

Brand rhad – 75c am bob $m^2$ sy'n cael ei orchuddio

Brand drud - £1.25 am bob $m^2$ sy'n cael ei orchuddio

**Home Learning Pack: Maths**

# Ystafell fyw newydd

Mae Jehmail a Benson yn symud i fflat newydd. Mae gan yr ystafell fyw arwynebedd o $28m^2$.

1. Beth yw cynlluniau posib yr ystafell fyw (gan dybio bod y corneli i gyd yn onglau sgwâr)?

2. Dewiswch eich hoff gynllun ar gyfer yr ystafell. Mae'r nenfwd 2.6m o'r llawr. Cyfrifwch yr holl gostau posib er mwyn addurno'r ystafell (er enghraifft: llawr laminiad pren gyda phaent brand drud, carped, paent brand rhad ac ati).

3. Mae Jehmail yn cadw'r dodrefn o'u hen fflat. Cynlluniwch ble i roi eu dodrefn i gyd – lluniwch ddyluniad o'r ystafell a gwnewch yn siŵr bod popeth yn ffitio:

**Llawr:**

Laminiad pren - £6.50 am bob $m^2$

Pren caled - £21.50 am bob $m^2$

Carped - £15 am bob $m^2$

**Paent:**

Brand rhad – 75c am bob $m^2$ sy'n cael ei orchuddio

Brand drud - £1.25 am bob $m^2$ sy'n cael ei orchuddio

**Dimensiynau'r dodrefn:**

Cadair freichiau – 104cm x 88cm

Silffoedd llyfrau x 2 – 80cm x 28cm

Bwrdd coffi – 118cm x 78cm

Bwrdd bach sgwâr – 55cm x 55cm

Seldfwrdd – 157cm x 88cm

Soffa – 180cm x 88cm

Mainc ar gyfer y teledu – 90cm x 26cm

# Beth yw'r ystadegau?

Defnyddiwch yr ystadegau o Adroddiad Ysgol Stonewall (2017) i ateb y cwestiynau.

Roedd Adroddiad Ysgol Stonewall yn arolwg o 3,713 o bobl ifanc LHDT.

- Yn gyffredinol, mae 45% o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 64% o fyfyrwyr traws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 57% o fyfyrwyr anneuaidd yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 60% o fyfyrwyr anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 43% o fyfyrwyr nad ydynt yn anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 86% o ddisgyblion LHDT yn clywed pobl yn defnyddio'r ymadrodd "mae hynny mor gay".
- Mae 36% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol yn yr ysgol.
- Mae 46% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl draws yn yr ysgol.
- Mae 40% o fyfyrwyr LHDT wedi cael eu targedu ar-lein gyda chamdriniaeth homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd.
- Mae 97% o fyfyrwyr LHDT yn gweld homoffobia, deuffobia a thrawsffobia ar-lein.
- Yn 2012, dywedodd 50% o fyfyrwyr fod eu hysgol wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 68%.
- Yn 2012, nid oedd 53% o fyfyrwyr LHDT wedi dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 40%.

Os ydych chi'n poeni am fwlio neu'n cael eich bwlio, dywedwch wrth oedolyn neu aelod o staff yr ysgol.

Gallwch hefyd ymweld â gwefan Childline neu eu ffonio ar 0800 1111

1. Faint o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws a ddywedodd eu bod yn cael eu bwlio am fod yn LHDT?

2. Faint o fyfyrwyr LHDT ddywedodd eu bod wedi clywed yr ymadrodd "mae hynny mor gay"?

3. Faint o fyfyrwyr LHDT sydd wedi cael eu targedu ar-lein?

4. Faint o fyfyrwyr LHDT oedd wedi gweld homoffobia, deuffobia neu drawsffobia ar-lein?

5. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT anabl a gafodd eu bwlio o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT nad oeddent yn anabl?

# Beth yw'r ystadegau?

Defnyddiwch yr ystadegau o Adroddiad Ysgol Stonewall (2017) i ateb y cwestiynau.

Roedd Adroddiad Ysgol Stonewall yn arolwg o 3,713 o bobl ifanc LHDT.

- Yn gyffredinol, mae 45% o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 64% o fyfyrwyr traws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 57% o fyfyrwyr anneuaidd yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 60% o fyfyrwyr anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 43% o fyfyrwyr nad ydynt yn anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 86% o ddisgyblion LHDT yn clywed pobl yn defnyddio'r ymadrodd "mae hynny mor gay".
- Mae 36% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol yn yr ysgol.
- Mae 46% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl draws yn yr ysgol.
- Mae 40% o fyfyrwyr LHDT wedi cael eu targedu ar-lein gyda chamdriniaeth homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd.
- Mae 97% o fyfyrwyr LHDT yn gweld homoffobia, deuffobia a thrawsffobia ar-lein.
- Yn 2012, dywedodd 50% o fyfyrwyr fod eu hysgol wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 68%.
- Yn 2012, nid oedd 53% o fyfyrwyr LHDT wedi dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 40%.

Os ydych chi'n poeni am fwlio neu'n cael eich bwlio, dywedwch wrth oedolyn neu aelod o staff yr ysgol.

Gallwch hefyd ymweld â gwefan Childline neu eu ffonio ar 0800 1111

1. Faint o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws a ddywedodd eu bod yn cael eu bwlio am fod yn LHDT?

2. Faint o fyfyrwyr LHDT ddywedodd eu bod wedi clywed yr ymadrodd "mae hynny mor gay"?

3. Faint o fyfyrwyr LHDT sydd wedi cael eu targedu ar-lein?

4. Faint o fyfyrwyr LHDT oedd wedi gweld homoffobia, deuffobia neu drawsffobia ar-lein?

5. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT anabl a gafodd eu bwlio o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT nad oeddent yn anabl?

6. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT a glywodd sylwadau negyddol am bobl draws o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT sy'n clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol?

7. Cymerodd 1,614 o bobl ifanc ran yn Adroddiad Ysgol 2012. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr LHDT sy'n dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol?

8. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr sy'n dweud bod eu hysgol yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir?

9. Dewiswch 3 ystadegyn o'r daflen ffeithiau a lluniwch siart cylch ar gyfer pob un.

# Beth yw'r ystadegau?

Defnyddiwch yr ystadegau o Adroddiad Ysgol Stonewall (2017) i ateb y cwestiynau.

Roedd Adroddiad Ysgol Stonewall yn arolwg o 3,713 o bobl ifanc LHDT.

- Yn gyffredinol, mae 45% o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol
- Mae 64% o fyfyrwyr traws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 57% o fyfyrwyr anneuaidd yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 60% o fyfyrwyr anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 43% o fyfyrwyr nad ydynt yn anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 86% o ddisgyblion LHDT yn clywed pobl yn defnyddio'r ymadrodd "mae hynny mor gay".
- Mae 36% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol yn yr ysgol.
- Mae 46% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl draws yn yr ysgol.
- Mae 40% o fyfyrwyr LHDT wedi cael eu targedu ar-lein gyda chamdriniaeth homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd.
- Mae 97% o fyfyrwyr LHDT yn gweld homoffobia, deuffobia a thrawsffobia ar-lein.
- Yn 2012, dywedodd 50% o fyfyrwyr fod eu hysgol wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 68%.
- Yn 2012, nid oedd 53% o fyfyrwyr LHDT wedi dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 40%.

Os ydych chi'n poeni am fwlio neu'n cael eich bwlio, dywedwch wrth oedolyn neu aelod o staff yr ysgol.

Gallwch hefyd ymweld â gwefan Childline neu eu ffonio ar 0800 1111

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

1. Faint o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws a ddywedodd eu bod yn cael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol?

2. Faint yn fwy o fyfyrwyr LHDT oedd wedi cael eu bwlio ar-lein o'i gymharu ag yn yr ysgol?

3. Faint yn fwy o fyfyrwyr LHDT oedd wedi gweld homoffobia, deuffobia neu drawsffobia ar-lein o gymharu â faint o fyfyrwyr oedd wedi profi bwlio ar-lein?

4. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT anabl a gafodd eu bwlio o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT nad oeddent yn anabl?

5. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT a glywodd sylwadau negyddol am bobl draws o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT sy'n clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol?

6. Cymerodd 1,614 o bobl ifanc ran yn Adroddiad Ysgol 2012. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr LHDT sy'n dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.

7. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr sy'n dweud bod eu hysgol yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.

8. Dewiswch 3 ystadegyn o'r daflen ffeithiau a lluniwch siart cylch ar gyfer pob un.

# Gweithgareddau ar gyfer Myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# The Y briodas

Mae Sam a George yn priodi ac mae ganddyn nhw gyllideb o £4,500 ar gyfer eu parti priodas. Mae 100 o bobl yn mynd i fod yn y briodas. Helpwch nhw i gynllunio'r parti priodas, gan ddewis o'r gwahanol opsiynau a gwneud yn siŵr na fyddan nhw'n gwario mwy nag sydd ganddyn nhw. Efallai y byddwch am greu taenlen Excel i'ch helpu.

**Leoliad:**

Neuadd y pentref - £120 y diwrnod

Pabell fawr - £600 y diwrnod

Adeilad moethus - £65 am bob gwestai (sy'n cynnwys byrddau, cadeiriau a phryd tri chwrs)

Llogi bwrdd - £6.70 fesul bwrdd (lle i 10 eistedd)

Llogi cadair - £2.65 fesul cadair

**Bwyd:**

Bwffe - £5 y pen

Pryd tri chwrs - £32.50 y pen

Bwrdd caws - £4 y pen

**Cacen:**

Cacen gartref - £20

Cacen o archfarchnad - £60

Cacen ffansi - £300

**Adloniant:**

DJ - £250

Band - £750

Llawr dawnsio syml - gweler isod

Llawr dawnsio wedi'i oleuo -

gweler isod Bwth lluniau - £280

Gemau aer - £500

**Addurniadau:**

Goleuadau tylwyth teg – gweler

isod Balŵns - £10

Blodau - £50 y

trefniant Baneri

bach - £60

Llieiniau bwrdd - £9.30 yr un

**Y llawr dawnsio**

Byddai Sam a George yn hoffi llogi llawr dawnsio gydag arwynebedd o $64m^2$. Dydyn nhw methu penderfynu os mai llawr gydag ymylon plaen neu ymylon sy'n goleuo y dylen nhw ei gael.

Mae'n costio £2.32 fesul $1m^2$ o'r llawr. Mae pob teilsen llawr yn mesur 1m wrth 1m.

Mae'r ymylon plaen ar gyfer y llawr yn costio 75c y metr.

Mae'r ymylon sy'n goleuo yn costio £1.25 y metr.

Fel rhan o'r cynllun ar gyfer y briodas, bydd angen i chi ddylunio'r llawr dawnsio. Rhowch gynnig ar sawl dyluniad gwahanol. Dylech ystyried pa ddyluniadau sydd fwyaf synhwyrol, ond hefyd ystyried pa ddyluniadau sydd fwyaf cost effeithiol.

## Goleuadau tylwyth teg

Os ydyn nhw'n llogi pabell fawr, bydd angen goleuadau tylwyth teg ar Sam a George. Maen nhw'n gwybod mai arwynebedd y babell fydd $72m^2$, ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth yw perimedr y babell. Mae'r goleuadau tylwyth teg yn costio 99c y metr.

Fel rhan o'r cynllun ar gyfer y briodas, bydd angen i chi ddarganfod beth fydd cost bosib y goleuadau tylwyth teg. Dylech ddarganfod beth fydd y gost isaf ac uchaf ar gyfer y goleuadau.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y briodas

Mae Sam a George yn priodi ac mae ganddyn nhw gyllideb o £4,500 ar gyfer eu parti priodas. Mae 100 o bobl yn mynd i fod yn y briodas. Helpwch nhw i gynllunio'r parti priodas, gan ddewis o'r gwahanol opsiynau a gwneud yn siŵr na fyddan nhw'n gwario mwy nag sydd ganddyn nhw. Efallai y byddwch am greu taenlen Excel i'ch helpu.

Ymchwiliwch i'r costau ar-lein i helpu gyda'r gyllideb. Bydd angen i chi feddwl am y canlynol:

- Lleoliad
- Llogi byrddau a chadeiriau
- Bwyd a diod
- Adloniant (er enghraifft DJ neu fand)
- A oes angen i chi logi llawr dawnsio
- Cacen
- Addurniadau (er enghraifft blodau, goleuadau tylwyth teg)

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

# Y briodas

Mae Sam a George yn priodi ac mae ganddyn nhw gyllideb o £4,500 ar gyfer eu parti priodas. Mae 100 o bobl yn mynd i fod yn y briodas. Helpwch nhw i gynllunio'r parti priodas, gan ddewis o'r gwahanol opsiynau a gwneud yn siŵr na fyddan nhw'n gwario mwy nag sydd ganddyn nhw. Efallai y byddwch am greu taenlen Excel i'ch helpu.

Ymchwiliwch i'r costau ar-lein i helpu gyda'r gyllideb. Bydd angen i chi feddwl am y canlynol:

- Lleoliad
- Llogi byrddau a chadeiriau
- Bwyd a diod
- Adloniant (er enghraifft DJ neu fand)
- A oes angen i chi logi llawr dawnsio
- Cacen
- Addurniadau (er enghraifft blodau, goleuadau tylwyth teg)

## Y llawr dawnsio

Fel rhan o'r cynllun ar gyfer y briodas, bydd angen i chi ddylunio'r llawr dawnsio. Byddai Sam a George yn hoffi llogi llawr dawnsio gydag arwynebedd o $64m^2$. Dydyn nhw methu penderfynu os mai llawr dawnsio plaen neu lawr dawnsio gyda golau ddylen nhw ei gael. Rhowch gynnig ar sawl dyluniad gwahanol. Dylech ystyried pa ddyluniadau sydd fwyaf synhwyrol, ond hefyd ystyried pa ddyluniadau sydd fwyaf cost effeithiol.

## Goleuadau tylwyth teg

Os ydyn nhw'n llogi pabell fawr, bydd angen goleuadau tylwyth teg ar Sam a George. Maen nhw'n gwybod mai arwynebedd y babell fydd $72m^2$, ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth yw perimedr y babell. Fel rhan o'r cynllun ar gyfer y briodas, bydd angen i chi ddarganfod beth fydd cost bosib y goleuadau tylwyth teg. Dylech ddarganfod beth fydd y gost isaf ac uchaf ar gyfer y goleuadau.

# Ystafell fyw newydd

Mae Jehmail a Benson yn symud i fflat newydd. Mae gan yr ystafell fyw arwynebedd o $28m^2$.

1. Beth yw cynlluniau posib yr ystafell fyw (gan dybio bod y corneli i gyd yn onglau sgwâr)?

2. Dewiswch eich hoff gynllun ar gyfer yr ystafell. Mae'r nenfwd 2.6m o'r llawr. Cyfrifwch yr holl gostau posib er mwyn addurno'r ystafell (er enghraifft: llawr laminiad pren gyda phaent brand drud, carped, paent brand rhad ac ati).

3. Mae Jehmail a Benson yn cadw'r dodrefn o'u hen fflat. Cynlluniwch ble i roi eu dodrefn i gyd – lluniwch ddyluniad o'r ystafell a gwnewch yn siŵr bod popeth yn ffitio:

**Llawr**:

Laminiad pren - £6.50 am bob $m^2$

Pren caled - £21.50 am bob $m^2$

Carped - £15 am bob $m^2$

**Paent:**

Brand rhad – 75c am bob $m^2$ sy'n cael ei orchuddio

Brand drud - £1.25 am bob $m^2$ sy'n cael ei orchuddio

**Dimensiynau'r dodrefn:**

Cadair freichiau – 104cm

x 88cm Silffoedd llyfrau x

2 – 80cm x 28cm Bwrdd

coffi – 118cm x 78cm

Bwrdd bach sgwâr –

55cm x 55cm Seldfwrdd

– 157cm x 88cm

Soffa – 180cm x 88cm

Mainc ar gyfer y teledu – 90cm x 26cm

# Ystafell fyw newydd

Mae Jehmail a Benson yn symud i fflat newydd. Mae gan yr ystafell fyw arwynebedd o 28m$^2$.

1. Beth yw cynlluniau posib yr ystafell fyw (gan dybio bod y corneli i gyd yn onglau sgwâr)?

2. Dewiswch eich hoff gynllun ar gyfer yr ystafell. Mae'r nenfwd 2.6m o'r llawr. Cyfrifwch yr holl gostau posib er mwyn addurno'r ystafell (er enghraifft: llawr laminiad pren gyda phaent brand drud, carped, paent brand rhad ac ati).

**Llawr:**

Laminiad pren - £6.50 am

bob m$^2$ Pren caled - £21.50

am bob m$^2$ Carped - £15

am bob m$^2$

**Paent:**

Brand rhad – 75c am bob m$^2$ sy'n cael ei orchuddio

Brand drud - £1.25 am bob m$^2$ sy'n cael ei orchuddio

3. Mae Jehmail a Benson yn mynd i brynu dodrefn newydd i gyd. Defnyddiwch wefan siop gwerthu dodrefn ar-lein i ddod o hyd i ddodrefn. Dylech wneud yn siŵr bod yr holl ddodrefn yn gallu ffitio yn yr ystafell a chyfrifo faint y byddan nhw'n ei gostio.

Bydd angen o leiaf y canlynol arnyn nhw:

- Soffa
- Cadair freichiau
- Cwpwrdd llyfrau
- Bwrdd coffi
- Mainc ar gyfer y teledu

# Ystafell fyw newydd

Mae Jehmail a Benson yn symud i fflat newydd. Mae gan yr ystafell fyw arwynebedd o $28m^2$.

1. Beth yw cynlluniau posib yr ystafell fyw (gan dybio bod y corneli i gyd yn onglau sgwâr)?

2. Dewiswch eich hoff gynllun ar gyfer yr ystafell. Mae'r nenfwd 2.6m o'r llawr. Edrychwch ar-lein i ddod o hyd i gostau: paent brand rhad, paent brand drud, llawr pren laminedig, llawr pren caled a charped. Cyfrifwch yr holl gostau posib er mwyn addurno'r ystafell (er enghraifft: llawr laminiad pren gyda phaent brand drud, carped, paent brand rhad ac ati).

3. Mae Jehmail a Benson yn mynd i brynu dodrefn newydd i gyd. Defnyddiwch wefan siop gwerthu dodrefn ar-lein i ddod o hyd i ddodrefn. Dylech wneud yn siŵr bod yr holl ddodrefn yn gallu ffitio yn yr ystafell a chyfrifo faint y byddan nhw'n ei gostio.

   Bydd angen o leiaf y canlynol arnyn nhw:

- Soffa
- Cadair freichiau
- Cwpwrdd llyfrau
- Bwrdd coffi
- Mainc ar gyfer y teledu

# Beth yw'r ystadegau?

Defnyddiwch yr ystadegau o Adroddiad Ysgol Stonewall (2017) i ateb y cwestiynau.

Roedd Adroddiad Ysgol Stonewall 2017 yn arolwg o 3,713 o bobl ifanc LHDT.

- Yn gyffredinol, mae 45% o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol
- Mae 64% o fyfyrwyr traws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 57% o fyfyrwyr anneuaidd yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 60% o fyfyrwyr anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 43% o fyfyrwyr nad ydynt yn anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 86% o ddisgyblion LHDT yn clywed pobl yn defnyddio'r ymadrodd "mae hynny mor gay".
- Mae 36% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol yn yr ysgol.
- Mae 46% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl draws yn yr ysgol.
- Mae 40% o fyfyrwyr LHDT wedi cael eu targedu ar-lein gyda chamdriniaeth homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd.
- Mae 97% o fyfyrwyr LHDT yn gweld homoffobia, deuffobia a thrawsffobia ar-lein.
- Yn 2012, dywedodd 50% o fyfyrwyr fod eu hysgol wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 68%.
- Yn 2012, nid oedd 53% o fyfyrwyr LHDT wedi dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 40%.

*Os ydych chi'n poeni am fwlio neu'n cael eich bwlio, dywedwch wrth oedolyn neu aelod o staff yr ysgol.*


*Gallwch hefyd ymweld â gwefan Childline neu eu ffonio ar 0800 1111*

1. Faint o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws a ddywedodd eu bod yn cael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol?
2. Faint yn fwy o fyfyrwyr LHDT oedd wedi cael eu bwlio ar-lein o'i gymharu ag yn yr ysgol?
3. Faint yn fwy o fyfyrwyr LHDT oedd wedi gweld homoffobia, deuffobia neu drawsffobia ar-lein o gymharu â faint o fyfyrwyr oedd wedi profi bwlio ar-lein?
4. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT anabl a gafodd eu bwlio o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT nad oeddent yn anabl?
5. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT a glywodd sylwadau negyddol am bobl draws o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT sy'n clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol?
6. Cymerodd 1,614 o bobl ifanc ran yn Adroddiad Ysgol 2012. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr LHDT sy'n dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.
7. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr sy'n dweud bod eu hysgol yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.
8. Dewiswch 3 ystadegyn o'r daflen ffeithiau a lluniwch siart cylch ar gyfer pob un.

# Beth yw'r ystadegau?

Defnyddiwch yr ystadegau o Adroddiad Ysgol Stonewall (2017) i ateb y cwestiynau.

Roedd Adroddiad Ysgol Stonewall yn arolwg o 3,713 o bobl ifanc LHDT.




- Yn gyffredinol, mae 45% o fyfyrwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol
- Mae 64% o fyfyrwyr traws yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 57% o fyfyrwyr anneuaidd yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 60% o fyfyrwyr anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 43% o fyfyrwyr nad ydynt yn anabl yn cael eu bwlio am fod yn LHDT
- Mae 86% o ddisgyblion LHDT yn clywed pobl yn defnyddio'r ymadrodd "mae hynny mor gay".
- Mae 36% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol yn yr ysgol.
- Mae 46% o ddisgyblion LHDT yn clywed sylwadau negyddol am bobl draws yn yr ysgol.
- Mae 40% o fyfyrwyr LHDT wedi cael eu targedu ar-lein gyda chamdriniaeth homoffobaidd, ddeuffobaidd a thrawsffobaidd.
- Mae 97% o fyfyrwyr LHDT yn gweld homoffobia, deuffobia a thrawsffobia ar-lein.
- Yn 2012, dywedodd 50% o fyfyrwyr fod eu hysgol wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir. Yn 2017, roedd y ffigur hwnnw yn 68%.

Rhif Elusen Gofrestredig 1101255 (Lloegr a Cymru) a SC039681 (Yr Alban)

*Os ydych chi'n poeni am fwlio neu'n cael eich bwlio, dywedwch wrth oedolyn neu aelod o staff yr ysgol.*

*Gallwch hefyd ymweld â gwefan Childline neu eu ffonio ar 0800 1111*

1. Beth yw cyfanswm nifer y myfyrwyr o Gymru a'r Alban gymerodd ran yn yr arolwg?
2. Faint yn fwy o ferched na bechgyn gymerodd ran yn yr arolwg?
3. Faint yn fwy o ferched na phobl nad oedd yn arddel huniaeth fel bachgen neu ferch a gymerodd ran yn yr arolwg?
4. Faint o fyfyrwyr oedd yn ddeurywiol neu'n defnyddio term gwahanol ar gyfer eu cyfeiriadedd rhywiol?
5. Faint yn fwy o fyfyrwyr LHDT oedd wedi gweld homoffobia, deuffobia neu drawsffobia ar-lein o gymharu â faint o fyfyrwyr oedd wedi profi bwlio ar-lein?
6. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT anabl a gafodd eu bwlio o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT nad oeddent yn anabl?
7. Cymerodd 1,614 o bobl ifanc ran yn Adroddiad Ysgol 2012. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr LHDT sy'n dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.
8. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr sy'n dweud bod eu hysgol yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.
9. Dewiswch 3 ystadegyn o'r daflen ffeithiau a lluniwch siart cylch ar gyfer pob un.

# Beth yw'r ystadegau?

Defnyddiwch yr ystadegau o Adroddiad Ysgol Stonewall (2017) i ateb y cwestiynau.

Mae'r adroddiad ar gael ar-lein yn fan hyn.

**Nodyn:** *Mae Adroddiad Ysgol Stonewall yn cynnwys rhai ystadegau pryderus o ran bwlio, anawsterau iechyd meddwl, hunan-niweidio a hunanladdiad. Os nad ydych chi am ddarllen y wybodaeth hon, edrychwch ar yr ystadegau ar y daflen yn lle.*

*Os ydych chi'n poeni am fwlio neu'n cael eich bwlio, dywedwch wrth oedolyn neu aelod o staff yr ysgol. Os ydych yn poeni am eich iechyd meddwl eich hun neu iechyd meddwl rhywun arall, siaradwch ag oedolyn neu aelod o staff yr ysgol.*

*Gallwch hefyd gysylltu â:*

*Childline, drwy eu* gwefan, *neu eu ffonio ar 0800 1111*

*Papyrus* drwy eu gwefan, neu eu ffonio ar 0800 0614141

1. Beth yw cyfanswm nifer y myfyrwyr o Gymru a'r Alban gymerodd ran yn yr arolwg?
2. Faint yn fwy o ferched na bechgyn gymerodd ran yn yr arolwg?
3. Faint yn fwy o ferched na phobl nad oedd yn arddel huniaeth fel bachgen neu ferch a gymerodd ran yn yr arolwg?
4. Faint o fyfyrwyr oedd yn ddeurywiol neu'n defnyddio term gwahanol ar gyfer eu cyfeiriadedd rhywiol?

5. Pa ganran o fyfyrwyr traws a ddywedodd eu bod yn cael eu bwlio am fod yn LHDT?
6. Faint yn fwy o fyfyrwyr LHDT oedd wedi cael eu bwlio ar-lein o'i gymharu ag yn yr ysgol?
7. Faint yn fwy o fyfyrwyr LHDT oedd wedi gweld homoffobia, deuffobia neu drawsffobia ar-lein o gymharu â faint o fyfyrwyr oedd wedi profi bwlio ar-lein?
8. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT anabl a gafodd eu bwlio o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT nad oeddent yn anabl?
9. Beth oedd y gwahaniaeth yng nghanran y myfyrwyr LHDT a glywodd sylwadau negyddol am bobl draws o gymharu â chanran y myfyrwyr LHDT sy'n clywed sylwadau negyddol am bobl ddeurywiol?
10. Cymerodd 1,614 o bobl ifanc ran yn Adroddiad Ysgol 2012. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr LHDT sy'n dysgu am faterion LHDT yn yr ysgol? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.
11. Beth yw'r newid yn y ganran (rhwng 2012 a 2017) rhwng y myfyrwyr sy'n dweud bod eu hysgol yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn anghywir? Dangoswch gynrychiolaeth o'r newid gan ddefnyddio graff o'ch dewis.
12. Dewiswch 3 ystadegyn o'r daflen ffeithiau a lluniwch siart cylch ar gyfer pob un.